



UMPA

Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

29 Gorffennaf 2016

Ystafell Bwyllgor

Presennol:

Lauren Marks (LM)	- Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Rhun Dafydd (RhD)	- Materion Cymreig a Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Naomi Cutler (NC)	- Swyddog Lles Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Jasmine Cross (JC)	- Swyddog Gweithgareddau Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Ryan Myles (RM)	- Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwr
Peter Curran	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Sue Parnell	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Alastair Wager (AW)	- Ymddiriedolwr Ôl-raddedig UMPA

Yn gwasanaethu:

Trish McGrath (TM)	- Prif Weithredwr UMPA
Anmarie Evans (AE)	- Cynorthwydd Gweithredol i Fwrdd UMPA (yn cymryd cofnodion)

GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu'r Swyddogion Ymddiriedolwyr newydd, ac atgoffa'r bwrdd bod angen cyfeirio ymholiadau sy'n perthyn i'r agenda, materion y Bwrdd a.y.b. at y Cadeirydd.

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Estelle Hart – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

Richard Matthews (RM) - Ymddiriedolwr Israddedig UMPA

2. Datganiadau o Fuddiannau

Hysbysodd AW y Bwrdd ei fod yn aelod o Staff Bar UMPA.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Eitem 5 – Cyllid

Roedd cost mabwysiadu'r polisi o dalu'r Cyflog Byw Cenedlaethol i bob oedran ar goll o'r cofnodion.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 20 Mai fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd, gan gynnwys y gwelliant uchod.

Cymeradwywyd

4. Materion yn Codi

Ymdriniwyd ag unrhyw faterion sy'n codi yn yr eitemau ar yr agenda.

Nodwyd

STRATEGAETH

5. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth

Esboniodd TM bod y cyfrifon hyd at ddiwedd Mehefin 2016 yn dangos diffyg ariannol o £150k yn erbyn y targed yn y gyllideb. Hefyd hysbysodd TM y Bwrdd bod hyfforddiant ariannol ar gyfer Rheolwyr nad ydynt yn ymwneud ag arian, wedi cael ei drefnu ar gyfer diwedd Awst, mewn ymgais i wella dealltwriaeth o Gyllidebau.

Nodwyd

6. Adroddiad y Prif Weithredwr

Rhoddodd TM grynodedb o weithgareddau a chynnydd UMAber ers y cyfarfod diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys Sefydlu a Hyfforddi Swyddogion, Rhaglen Newid, Staffio, Cynllun Strategol, Recriwtio Ymddiriedolwyr, Y Gyllideb a'r Grant Bloc, Gwobrau, Seremonïau Graddio, Cynhadledd yr Aelodaeth a'r Diwrnod Agored.

Nodwyd

7. Rhaglen Newid (Cyfrinachol)

i. Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) ar gyfer Trosglwyddiad Masnachol

Estynnodd TM wahoddiad i'r bwrdd wneud unrhyw newidiadau terfynol i'r CLG cyn cymeradwyo'r cytundeb.

Roedd angen rhoi ystyriaeth i'r meysydd canlynol:

2.5 *Caiff myfyrwyr aros yn y manau hyn heb brynu unrhyw nwyddau, cânt fwyta eu bwyd eu hunain, neu wneud defnydd o'r manau hyn at ddibenion ymgyrchu. Caiff hunaniaeth unigryw'r cyfleusterau eu hamddiffyn a'u hyrwyddo er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cydnabod y manau hyn fel eu heiddo nhw. Bydd hyn yn cynnwys y cyfle i ddylanwadu ar yr ystod o nwyddau sydd ar gael (e.e. masnach deg) ymysg pethau eraill.*

a. **Os yw myfyriwr am gael unrhyw gynnyrch arbennig yn y siop, sut fydden nhw'n mynd ati i ofyn am hyn?** *Dylen nhw gysylltu â'r Llywydd, fydd yn pasio'r wybodaeth ymlaen i'r Pwyllgor.*

b. **Ydyn nhw'n mynd i fod yn gweithredu dan ein henw ni neu CCS?** *I'w gadarnhau*

2.7 *Ni fydd Undeb y Myfyrwyr yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd hysbysebu na hyrwyddo â chystadleuwyr uniongyrchol CCS am fwyd, diod, adwerthu, campfa na chyfleusterau chwaraeon, heb yn gyntaf gytuno â'r Brifysgol. Caiff unrhyw anghydfod ei gyfeirio at Brif Weithredwr y Brifysgol i'w ddatrys.*

a. Os ydyn nhw'n defnyddio'r manau hyn ar gyfer cynadleddau, a'u bod yn trefnu hyn ymhell ymlaen llaw, fydd hynny'n effeithio ar ein gallu i gael blaenoriaeth o ran defnyddio'r lleoliad? Bydd y Pwyllgor yn helpu i ddatrys a thrafod unrhyw anawsterau posib. Mae gan y naill ochr a'r llall rôl yn hyn, gan wneud pob ymdrech i sicrhau bod hyn yn gweithio.

b. Beth yw'r cynlluniau ar gyfer Semester 2? Does dim cynlluniau hyd yma; bydd y sgysiau hyn yn dechrau unwaith y bydd y Glas wedi cyrraedd.

c. Allwn ni wneud cais am ddigwyddiadau penodol? Gallwch

2.9 Ni fydd Undeb y Myfyrwyr yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd hysbysebu na hyrwyddo â chystadleuwyr uniongyrchol CCS am fwyd, diod, adwerthu, campfa na chyfleusterau chwaraeon, heb yn gyntaf gytuno â'r Brifysgol. Caiff unrhyw anghydfod ei gyfeirio at Brif Weithredwr y Brifysgol i'w ddatrys.

a. Oes modd ei gwneud yn eglurach na fyddai unrhyw effaith ar Glybiau Chwaraeon a Chymdeithasau yn dderbyniol? Oes

b. Ydyn ni wedi ein clymu i'r Brifysgol? Mae o fudd iddyn nhw wneud i hyn weithio; os na allan nhw sicrhau hyn, yna gallwn edrych ar gynllun amgen.

Cytunodd y Bwrdd y byddai TM yn newid hyn fel y gofynnwyd uchod, ac unwaith mae hyn wedi cael ei gadarnhau, yn ei anfon at aelodau'r Bwrdd drwy e-bost.

Gweithredu - TM

ii. Darpariaeth Gyllidol

Darparodd TM y Bwrdd â'r diweddaraf ar gyd-drafodaethau pellach ag adran Gyllid y Brifysgol. Esboniodd TM bod dau gynnig i'r Bwrdd eu hystyried, a gofynnodd iddyn nhw bleidleisio arnynt.

Opsiwn 1– Cadw 2 aelod staff Cyllid, gyda'r cyfle i gael ein dyled wedi'i dileu ym mis Hydref 2017 cyn belled â'n bod ni'n perfformio o fewn y gyllideb.

October 2017 subject to performing under budget.

Opsiwn 2– Trosglwyddo'r 2 aelod staff Cyllid, gyda'r cyfle i gael ei dyled wedi'i dileu ym Mehefin.

cleared in June.

Yn dilyn trafodaeth fanwl cymeradwyodd y Bwrdd **Opsiwn 1**.

iii. Ymatebion i Ymgynghoriadau:

Darparodd TM y Bwrdd ag adroddiad ar ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â'i hargymhellion. Gwahoddodd TM y Bwrdd i ystyried yr ymatebion a chadarnhau'r newidiadau. Mae'r canlynol yn grynodedb o'r newidiadau a gytunwyd gan y Bwrdd:

- 1) Gweithgaredd cymorth i'r aelodaeth i'w amlinellu'n eglur mewn cyfathrebiadau a swydd-ddisgrifiadau Ymgysylltiad
- 2) Staff myfyrwyr i'w hychwanegu at strwythur y staff
- 3) 2 swydd Cynghorydd cyfystyr â llawn-amser i'w hysbysebu at ddibenion mynegi diddordeb cyntaf.
- 4) Mae'r term Cydlynedd yn well na Hwylusydd
- 5) Y Prif Weithredwr i sicrhau bod swydd-ddisgrifiadau'n briodol, a mynd ati i adolygu hyn gyda'r Llywydd yn ei rôl fel Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
- 6) Intern y Dderbynfa i fod yn rhan o'r tîm Cyfleoedd Myfyrwyr
- 7) Lleoliadau seddi/desgiau i'w adolygu cynted â phosib i hyrwyddo gweithio rhyng-adrannol mwy clòs.

Hefyd darparodd TM ddau strwythur i'r Bwrdd eu hystyried. Opsiwn 1 oedd y dewis a gymeradwywyd yn wreiddiol; newidiwyd ychydig ar Opsiwn 2 i symud Intern y Dderbynfa dan 'Cyfleoedd'.

Cymeradwywyd Opsiwn 2 gan y Bwrdd

Hefyd gofynnodd TM i'r Bwrdd benderfynu sut bydden nhw'n dymuno hysbysebu'r swyddi sydd heb eu cymryd gan staff sydd 'mewn risg'. **Cytunodd y Bwrdd y byddai'r swyddi'n cael eu hysbysebu'n fewnol.**

Gweithredu - TM

8. Y diweddaraf ar Ymchwil Strategol UCM

Darparodd TM y Bwrdd â'r diweddaraf ar ganlyniadau'r Ymchwil a gynhaliwyd gan UCM, a nododd, unwaith y byddai'r Rhaglen Newid wedi'i chwblhau, y bydd y Cynllun Strategol yn flaenoriaeth.

Nodwyd

9. Recriwtio Ymddiriedolwyr Allanol

Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd bod un o'r Ymddiriedolwyr Allanol, Estelle Hart (EH) wedi ymddiswyddo, effeithiol o fis Rhagfyr. Diolchodd y Cadeirydd ar ran y Bwrdd am gyfraniad ac ymroddiad EH yn ystod ei chyfnod yn y rôl.

Trafododd y Bwrdd ymhellach recriwtio 3 Ymddiriedolwr Allanol, a chytunodd fod Cydraddoldeb ac Amrywioldeb, Marchnata, Gwirfoddoli a gwybodaeth am UCM/UM ymysg y meysydd y dylid edrych arnynt. Hefyd cytunodd y Bwrdd y byddai SP yn rhan o'r recriwtio a'r penodiadau.

Nodwyd

10. Adolygiad o Rôl Swyddogion

Gofynnodd TM i'r bwrdd gymeradwyo cost Adolygiad o Rôl Swyddogion, sef £2.5k.

Cymeradwywyd

11. 2016/17 Dyddiadau ar gyfer y Calendar Busnes

Darparwyd y Bwrdd ag amserlen ar gyfer busnes yn y flwyddyn academaidd 2016/17. Ni wnaed unrhyw welliannau. Bydd AE yn anfon allan Doodle i gadarnhau dyddiadau cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr.

Nodwyd

12. Unrhyw fusnes arall

Mandadau Banc

Gofynnwyd i'r bwrdd gymeradwyo'r Prif Weithredwr fel arwyddwr sieciau.

Cymeradwywyd

Hysbysodd TM y Bwrdd y byddwn ni'n cynnal ein parti Nadolig ar 16 Rhagfyr, ac estynnodd groeso i aelodau'r Bwrdd ymuno â ni.

Nodwyd

Holodd JC ynglŷn ag anawsterau roeddent yn eu cael gydag Akuma. Rhoddwyd y dasg i TM o edrych yn fanwl ar delerau cytundebau, ac wedyn dod yn ôl at y Bwrdd os oes unrhyw faterion sy'n galw am eu sylw.

Gweithredu - TM

Trafododd y bwrdd y cyhoedduswydd ar gyfer y Trosglwyddiad Masnachol, a chytunodd y byddai'r Cadeirydd yn llunio datganiad ar ran y Bwrdd.

Gweithredu - TM

Daeth y cyfarfod i ben.